***Cyngor Sir Penfro***
***Cynllun Datblygu Lleol Diwygiiedig 2017–2033***
***ARHOLIAD***
**Pembrokeshire County Council**
**Revised Local Development Plan 2017–2033**
**EXAMINATION**

*Arolygwyr / Inspectors:*
**Ian Stevens BA (Hons) MCD MRTPI**
**Paul Selby BEng (Hons) MSc MRTPI**

*Swyddog Rhaglen / Programme Officer:*
**Deborah Williamson**

***ff*/t: 01437 775545   e: programmeofficer@pembrokeshire.gov.uk**

Development Plans Team/Tîm Cynlluniau Datblygu
Pembrokeshire County Council/Cyngor Sir Penfro
County Hall/ Neuadd y Sir
Haverfordwest/Hwlffordd
Pembrokeshire/Sir Benfro
SA61 1TP

03 Mawrth 2026

**Ymateb i gwestiynau cychwynnol ac estyn cyfnod gohirio'r ymchwiliad**

Mae'r Swyddog Rhaglen wedi anfon dogfennaeth sy'n ffurfio eich ymateb i gwestiynau a godwyd gennym yn ein llythyr cychwynnol ar 2 Rhagfyr 2025. Rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith sylweddol a wnaed gennych i lunio eich ymateb.

Fodd bynnag, ar ôl adolygu'r cyflwyniad, rydym yn nodi bod rhai dogfennau'n anghyflawn neu'n absennol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth allweddol megis:

- Y prif bapur ymateb, o'r enw 'Cwestiynau Cychwynnol – Ymchwiliad' – adrannau wedi'u marcio'n 'Agored' (h.y. heb eu cwblhau)
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cyfansawdd – dwy adran wedi'u marcio 'I'w wneud'
- 'Diweddariad ar yr Adroddiad Hyfywedd Ariannol'
- 'Atodiad Gweithredu'
- Rhai 'ffeiliau safleoedd' (ac eithrio dyraniadau cyfleusterau cymunedol, y rhoddir esboniad dros beidio â'u cynnwys)

Rydym yn cydnabod na fydd yr holl wybodaeth ar gael ar yr adeg y cyflwynir dogfennau. Fodd bynnag, ymddengys bod yr hepgoriadau uchod o fewn rheolaeth y Cyngor, o bosibl gyda'r disgwyliad y bydd mwy o wybodaeth yn cael ei chyflwyno yn ddiweddarach.

Er nad ydym yn barod i ohirio'r ymchwiliad a'r gwrandawiadau dilynol ymhellach, nid ydym yn barod i dderbyn y cyflwyniad yn ei gyflwr anghyflawn am ddau brif reswm:

- Gall gwybodaeth sydd wedi'i hepgor gael effaith ar ddogfennau eraill yn y cyflwyniad

- Mae cyflwyno drafftiau byw o dystiolaeth ategol yn creu dryswch diangen i gyfranogwyr ac nid yw er budd ymchwiliad effeithlon.

Roedd ein llythyr cychwynnol yn nodi'n glir y gellid ymestyn neu gwtogi ar hyd cyfnod gohirio'r ymchwiliad yn dibynnu ar hyd disgwyliedig neu wirioneddol y rhaglen waith. Gan ei bod yn amlwg bod angen mwy o amser i gwblhau eich cyflwyniad, rydym yn ymestyn cyfnod atal yr ymchwiliad tan **25 Mawrth 2026**, a dylech gymryd y dyddiad hwn fel y **dyddiad cau newydd ar gyfer ymateb i'n cwestiynau cychwynnol**. Felly, byddwn yn diystyru'r **holl** ddogfennau y mae'r Swyddog Rhaglen wedi'u hanfon atom yn ddiweddar a byddwn yn aros am gyflwyniad cyflawn, wedi'i ddiweddaru. Byddem yn gofyn bod llythyr eglurhaol yn cael ei atodi hefyd sy'n nodi cyfeirnod unigryw pob dogfen a theitl a phwrpas y ddogfen.

Yn ogystal, rydym wedi gofyn i chi gyflwyno papur sy'n ymwneud â'r rhagamcanion aelwydydd newydd. Byddwn yn diwygio'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r papur hwn i 25 Mawrth, gan roi cyfle i chi ystyried unrhyw oblygiadau cysylltiedig yn y rownd a chyflwyno'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani ar yr un pryd.

Os nad yw'n bosibl darparu gwybodaeth benodol ar adeg cyflwyno (e.e. oherwydd ei bod y tu allan i reolaeth/cylch gwaith y Cyngor), sicrhewch eich bod yn gwneud y canlynol:

- Nodi'r rhesymau yn y dogfennau perthnasol i esbonio hyn
- Lle bo'n briodol, nodi pryd y bydd yn debygol y bydd yr wybodaeth yn hysbys
- Amlinellu barn y Cyngor o ran y goblygiadau ar gyfer cadernid neu gydymffurfiaeth gyfreithiol y cynllun, os yw'n berthnasol.

Os oes angen amser ychwanegol i ddarparu cyflwyniad terfynol, rhowch wybod i ni drwy'r Swyddog Rhaglen cyn gynted â phosibl.

Cysylltwch â ni drwy'r Swyddog Rhaglen o soes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn.

Ian Stevens and Paul Selby

**Yr Arolygwyr**